



taith **uwchdir**

# PENSYCHNANT

ehangwch eich gorwelion…

- **Taith Gylch**
- **Golygfeydd Eang**
- **Safleoedd Canoloesol**
- **Agos i dref Conwy**





## SUT I GYRRAEDD

Gyda Cludiant Cynoeddus

**O'r Orsaf:** yng Nghonwy neu Benmaenmawr, daliwch fws rhif 75 o'r safle bysiau sydd y tu allan i'r orsaf a gofynnwch am gael stopio wrth Maes Parcio'r Parc Cenedlaethol, yn union ar ôl Canolfan Gadwraeth Natur Pensychnant. (Gwasanaeth gwledig yw hwn ac fe allai newid; ffoniwch y Llinell Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus a nodir isod i gael cadarnhad). Dilynwch y trac i'r maes parcio. Rydych chi nawr wedi cyrhaedd dechrau'r daith gerdded.

**Efo Car:** Trowch oddi ar yr A55 yng nghyffordd 18 i ddilyn arwyddion yr A547 am Gonwy. Wrth i chi basio'r castell, ewch i'r dde ar gylchfan fechan. Dilynwch y system unffordd drwy fwa a throi ar unwaith i'r chwith i fyny Mount Pleasant. Trowch i'r dde ar Sychnant Pass Road. Cadwch at y ffordd am tua 2.5 milltir. Ar y chwith, yn union ar ôl arwydd Canolfan Gadwraeth Natur Pensychnant, fe welwch faes parcio ac arwydd Parc Cenedlaethol. Trowch i mewn i'r maes parcio. Rydych wedi cyrraedd man cychwyn y daith gerdded.

Llinell Ffôn Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus: 01492 575412
(Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).
Ffôn: Traveline Wales 0870 608 2 608

www.traveline-cymru.org.uk

**Dilynwch Y Côd Cefn Gwlados gwelwch yn dda**
Parchwch. Diogelwch. Mwynhewch.

## Gwybodaeth am y daith

Taith gylchol o ben Pas Sychnant gan fynd â chi dros dir mynediad agored i weld golygfeydd gwych o Ddyffryn Conwy, y Carneddau, penrhyn y Gogarth a'r arfordir. Cerddwch drwy dirwedd sy'n cynnwys cyfoeth o nodweddion archeolegol o gylchoedd cerrig i hafotai canoloesol.

**Tirwedd:** cerdded fyny bryn gydag ychydig o lethrau canolig i serth.
**Pellter:** 7.2 cilomedr, 4½ milltir.
**Amser:** 3½ awr.
**Llwybrau:** llwybrau gwellt a cherrig geirwon sy'n dilyn hawliau tramwy cyhoeddus. 1 giât ac 1 gamfa.
**Cŵn:** ar dir mynediad mae'n rhaid i chi gadw'ch ci ar dennyn byr rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf a phob tro byddwch yn agos i anifeiliad fferm. Mae'n rhaid cadw cŵn dan reolaeth dynn.
**Map:** Explorer OL17.
**Cyfeirnod Grid Dechrau a Gorffen:** SH 755 769. Maes Parcio Parc Cenedlaethol.
**Lluniaeth:** ar gael yn Dwygyfylchi, Penmaenmawr a Conwy.
Bras amcan yn unig yw'r amseroedd a'r pellteroedd
Paratowch ar gyfer y daith. Gwisgwch esgidiau cerdded cryf, dillad cynnes a diddos ac ewch a bwyd efo chi.

Am ragor o wybodaeth am fynediad i dir agored:
www.ccw.gov.uk




Stori Pen Cyf

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

GWASANAETH CEFN GWLAD
COUNTRYSIDE SERVICE
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

© Hawlfraint y Goron.
Cedwir pob hawl 100023380 2009.
© Intermap Technologies Inc.
Cedwir pob hawl DCON100 2009.



Cerdded o'r maes parcio tua Safle 1.

## DECHRAU'R DAITH I SAFLE 1 CRAIG Y FEDWEN SH 755 763

Gyda'r prif ffordd y tu ôl i chi dilynwch y trac i ffwrdd o'r brif ffordd a thuag at adeiladau'r fferm. Yn union cyn yr adeiladau, dilynwch y trac i'r dde, gan gadw i'r dde i ymuno â thrac mwy garw.

Parhewch i gerdded fyny'r prif drac, heibio i droiad i'r chwith nes eich bod wedi cyrraedd bryniau ar y naill ochr a'r llall. Fe welwch glogfaen fechan ar eich ochr dde ar gyffordd gyda llwybr troed. Dyma Safle 1.



Yr olygfa o Safle 1 gyda phentref Deganwy o'ch blaen ac i'r chwith, a Chyffordd Llandudno tua'r dde.

## Am olygfa (os nad yw'n niwlog!)

Wrth droi, fe welwch chi (o'r chwith i'r dde) gribyn hir a gwastad Mynydd y Dref yn disgyn i lawr i Drwyn y Fuwch yn y pellter. Daliwch i edrych i'r dde i weld bryn Nant y Gamar gyda Bae Penrhyn ar yr arfordir yn y pellter a Deganwy ar y blaen.

Mae Castell Conwy i'w weld i'r dde gyda Chyffordd Llandudno ac yna Bryn Pydew y tu ôl iddo. Mae Ucheldir Colwyn i'w weld yn y pellter a chefn gwlad Conwy o'i amgylch.




Mae waliau cerrig sych yn gallu cynnig cysgod da rhag y tywydd i anifeiliaid fferm.

## SAFLE 1 I SAFLE 2 MAEN ESGOB SH 752 762

Ewch ymlaen ar hyd y trac nes byddwch yn agos i wal ac yn cwrdd â thrac llai amlwg. Sefwch yma, dyma Safle 2.


Y wal ar y chwith i chi yw'r terfyn rhwng y tir caeëdig a'r gweundir agored. Fe'i codwyd, yn yr un modd â waliau caeau eraill yr ucheldir, o glogfeini crwn a gasglwyd oddi ar y llechweddau wrth glirio'r caeau oedd newydd eu creu. Roedd llawer o'r gwaith wedi'i orffen erbyn diwedd y 18fed ganrif. Maent yn enghreifftiau rhyfeddol o grefft yr hen godwyr waliau. Heddiw, mae'r grefft hon wedi'i hadfer wrth i ffermwyr gael cyfle i ailgodi'r waliau cerrig sych ar eu tir yn yr ardal hon dan gynlluniau stiwardiaeth cefn gwlad fel Tir Gofal.



Yr olygfa o Safle 2 gyda Chraig y Fedwen i'r dde a phentref Deganwy yn y pellter a bryn Nant y Gamar ar y chwith iddo.

## Golygfa well byth (os nad yw'n niwlog!)

Trowch i gael golwg ar fannau eraill o Safle 1. Tua'r chwith mae copa'r Gogarth ac i'r dde mae pentref Llansanffraid Glan Conwy gydag afon Conwy o'i flaen yng nghanol tirlun amaethyddol Dyffryn Conwy.



Cerdded tua Safle 3 gyda Cherrig y Ddinas ar y chwith yn codi i Dal y Fan tua'r dde.

## SAFLE 2 I SAFLE 3 HAFOTY SH 751 759

Dilynwch y trac llai amlwg sydd agosaf at y wal. Mae'r trac yn mynd oddi wrth y wal wedyn am gyfnod byr. Wrth i'r trac a'r wal ddod yn agosach at ei gilydd eto, byddwch yn gweld giât ar y chwith i chi

Ychydig ar ôl y giât hon ac ar y dde i chi mae carreg drionglog sydd wedi'i phlannu yn y ddaear. Dyma Safle 3.



Yr olygfa o tu ôl i Safle 3 tuag at afon Conwy ac i lawr Dyffryn Conwy gyda phentref Henryd yn y tu blaen.

Mae'r garreg hon yn dangos safle hafoty o'r Canol Oesoedd. Hyd at ddiwedd y 18fed ganrif, roedd yn arfer gan ffermwyr fynd gyda'u gwartheg a'u defaid i'r tir uchel yn ystod misoedd yr haf. Gan fod angen godro'r gwartheg bob dydd, bu'n rhaid i'w perchnogion fyw ar y tir uwch mewn tai haf syml (hafotai). Wrth i'r gaeaf ddynesu, byddent hwy a'r anifeiliaid yn symud yn ôl i'r tai gaeaf ar y tir isel (yr hendy neu'r hendref). Trawstrefa yw'r enw ar y mudo blynyddol hwn. Wrth i ddefaid gymryd lle gwartheg ac wrth amgáu tiroedd y mynydd tua diwedd y 18fed ganrif, nid oedd angen bellach am hafotai a thrawstrefa. Mae seiliau'r hafotai hyn yn gyffredin ar y llechweddau uchaf, yn enwedig ger Eglwys Llangelynnin, y gellir ei gweld wrth graffu ar lechweddau Cerrig y Ddinas.

## Oeddech chi'n gwybod?

Yn ystod Oes y Rhew, roedd rhewlif yn gorchuddio Dyffryn Conwy a'r ardal o amgylch. Ffurfiwyd y pant serth o'ch blaen gan ddyfroedd yn rhuthro o orchudd rhew oedd yn toddi ac yn encilio yn y cyfeiriad y byddwch chi'n cerdded ynddi.

Mae Craig y Fedwen, ar eich ochr chwith, wedi'i wneud o ryolit caled, craig folcanig llawn cwarts.

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae trychfilod, pryfed cop, gwrachod lludw, nadroedd miltroed, gwenyn, gwenyn meirch ac adar megis y siglen fraith a'r dryw yn hoffi byw mewn waliau cerrig sychion. Maent hefyd yn rhannu eu cartref gyda'r llyffant du, neidr ddefaid, llygoden y gwair a llygoden y maes.

Mae waliau cerrig sych yn fannau torheulo gwych i ymlusgiaid fel y fadfall gyffredin. Maent yn hoffi torheulo yn yr haul yn ystod y bore a'r prynhawn.

Os edrychwch yn fanwl ar wal gerrig sych fe welwch cen. Mae cen yn arwydd cynnar o fywyd. Maent yn tyfu orau yn llygad yr haul yng nghefn gwlad sy'n rhydd o lygredd

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae defaid yn hoffi cnoi egin newydd ffres y llwyni eithin. Dyma pam fod y llwyni eithin o'ch cwmpas yn edrych fel petaent wedi cael eu tocio'n siapiau crwm gan arddwr

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae gostyngiad dramatig wedi bod yn niferoedd yr ehedydd yn y degawdau diwethaf (i lawr 54% rhwng 1973 a 1988: ffigyrau'r BTO).

Corhedyddion y waun yw'r aderyn mwyaf cyffredin yn yr ucheldiroedd hyn yn ystod yr haf. Mae eu hediad herciog dan ganu yn nodweddiadol.



Safle 4, yn edrych tua'r cylch cerrig a Thal y Fan yn y cefndir.

## SAFLE 3 I SAFLE 4CYLCH CERRIG SH 747 753

Ewch ymlaen ar hyd y trac sy'n agos at y wal hyd nes y dewch at yr hyn sy'n weddill o gylch o feini hirion mawr. Rydych wedi cyrraedd Safle 4.


Erbyn heddiw, mae tair carreg ar eu sefyll a thair ar eu hochr yn aros ar ymyl y cylch, sy'n 10 medr ar ei draws. Mae'r bylchau sydd rhwng y cerrig yn awgrymu bod tair arall wedi diflannu.

Credir bod y cylch cerrig hwn yn 3,500 o flynyddoedd oed, a'i fod yn dyddio o'r Oes Efydd. Mae'n bosibl mai teml i addoli duwiau oedd hon.


Credir bod y cylch hwn yn sefyll ar ffordd hynafol sy'n dechrau (neu'n gorffen) ar lan y môr ger Llanfairfechan ac yn croesi'r gweundiroedd i Ddyffryn Conwy. Gellir olrhain llwybr y ffordd hon drwy ddilyn nifer o gylchoedd cerrig e.e. cylch y Meini Hirion, carneddi a sawl maen hir arall rhwng y fan hon ac arfordir y Gogledd.

Daw'r clogfeini a ddefnyddiwyd i godi'r cylch, a nifer o'r waliau cerrig sydd i'w gweld, yn wreiddiol o lethrau uchaf Eryri. Yn ystod yr Oes Rew ddiwethaf, 'tyfodd' rhewlif i orchuddio Dyffryn Conwy gan symud a llyfnhau nifer o glogfeini. Ar ddiwedd Oes y Rhew, dechreuodd y rhewlif ddadmer a chilio, a gadawyd y clogfeini yn y fan hon.

**Beth am i chi fynd i weld y Meini Hirion ar 'Daith Uwchdir Penmaenmawr'?**



Edrych tua'r maen hir o Safle 5 gyda Dyffryn Conwy yn y cefndir.



Wrth gerdded, efallai y gwelwch chi ferlod lledwyllt. Unwaith y flwyddyn, cânt eu corlannu gan ffermwyr lleol a'u rhannu er mwyn anfon rhai i arwerthiant. Pwy sydd angen côt pan mae gennych chi ffwr? Mae gan y merlod gôt aeaf â dwy haen iddi. Mae hyn yn cadw gwres ac yn dal dŵr. Gall eira orwedd ar gefn y merlod am gryn dipyn o amser heb iddyn nhw wlychu nac oeri.



Yn edrych ar Safle 5 lle y mae'r wal agosaf at y trac a phant ar ôl hynny.

## SAFLE 4 I SAFLE 5 PANT Y CYTIAU SH 746 751

Cychwynnwch eto ar eich taith ar hyd y trac nes bydd y wal ar eich chwith yn cwrdd â'r trac ar gornel a phant bach ar ei ôl. Dyma Safle 5. Os trowch eich cefn at y wal a cherdded ar hyd Pant y Cytiau o'ch blaen, (am tua 200m) byddwch yn dod ar draws olion sawl adeilad. Trowch yn eich ôl a mynd yn ôl at y trac. Yn union cyn i chi ailymuno â'r trac, fe welwch chi faen hir yn y caeau o'ch blaen. Trowch i'r dde i barhau ar hyd y trac.

Pant y Cytiau. Anheddiad canoloesol yw hwn, yn ôl pob tebyg, a gallai fod yn gysylltiedig â'r llechwedd o'ch blaen a fyddai'n cael ei haredig yn y Canol Oesoedd.

'Carnedd' yw'r maen hir ar y llwybr hynafol y soniwyd amdano'n flaenorol yn Safle 4, sy'n rhedeg o'r arfordir ac i lawr Dyffryn Conwy.

Edrychwch a welwch chi orhedydd y waun, ehedydd, clochdar y cerrig, brân goesgoch, cigfran ac, os byddwch chi'n lwcus, hutan y mynydd.

## SAFLE 5 I SAFLE 6 TYDDYN GRASOD SH 744 747

Ewch ymlaen ar hyd y trac at Gyffordd T a chornel y wal rydych chi wedi'i dilyn.

Trowch i'r chwith tuag at giât. Mae Tyddyn Grasod ar eich ochr chwith ac mae'r gorlan ddefaid 'aml-gell' ar eich ochr dde. Dyma Safle 6.

Mae defaid sy'n eiddo i nifer o berchnogion gwahanol yn gallu mynd yn gymysg wrth bori ar y tiroedd uchel. Ym mis Mehefin, byddant yn cael eu casglu yn y fan hon, eu gyrru i'r gorlan fawr yn y canol a'u didoli wedyn yn ôl eu perchnogion i'r corlannau llai ar y tu allan.

Gellir gweld coedwigoedd yn y pellter yn cuddio llechweddau isaf Cerrig y Ddinas, lle y gellir gweld anheddiad o'r Oes Haearn.

Mae'r grib yn arwain at Graig Celynnin, sy'n gysylltiedig ag Eglwys Celynnin yn Llangelynnin, sy'n sefyll yn y pant sy'n rhannu'r grib. Mae'r grib yn codi eto i uchder o 610 medr ar Dal y Fan.



Yr olygfa dros Dyddyn Grasod.

## SAFLE 6 I SAFLE 7 WAEN GYRACH SH 740 749


Trowch o'ch amgylch fel bod y corlannau defaid ar eich ochr chwith a Tyddyn Grasod ar eich ochr dde. Ewch yn ôl i ddilyn y trac o'ch blaen. Ewch yn eich blaen ar hyd y trac hwn ac ewch i'r chwith lle mae'r trac yn fforchio'n ddau. Croeswch y trac mwy clir a dilyn trac/llwybr llai eglur i lawr at adfeilion tyddyn – Waen Gyrach. Gan gadw olion y tyddyn ar y chwith, cerddwch i lawr at y coed ac at un o gyfeirbwyntiau Llwybr y Gogledd a throi i'r dde i ddilyn Llwybr y Gogledd. Dyma Safle 7.



Mae'r coed o'ch blaen yn nodi'r troiad ar gyfer Safle 7.



Cerdded tua Waen Gyrach gyda Moel Lus o'ch blaen.



Corlan aml-gell gyda Cherrig y Ddinas yn y cefndir tua'r dde.


Edrych dros y pant gyda Safle 8 yn y gornel uchaf ar y chwith.

## SAFLE 7 I SAFLE 8 TYDDYN OES YR HAEARN SH 746 758

Ewch yn eich blaen ar hyd Llwybr y Gogledd heibio i faen rhewlifol.

Ewch yn eich blaen dan linell bŵer i gerdded i lawr, o amgylch ac i fyny'r pant, gan groesi dan linell bŵer unwaith eto. Rhwng y ddau bolyn telegraff nesaf ac ar eich ochr dde, mae Safle 8.

Wrth yr ail bolyn teligraff, mae'r llwybr yn mynd drwy grŵp o chwech o gytiau crwn a lled-betryal. Mae'r rhain hyd at 2,000 o flynyddoedd oed. Credir mai tai fferm o'r Oes Haearn yw'r cytiau hyn yn hytrach na phentref.

Nid oes unrhyw arwydd i'w weld o aredig neu o batrwm caeau a allai fod yn gysylltiedig â'r grŵp cytiau hwn. Mae'n debyg mai ffermwyr gwartheg oedd y deiliaid, a'u bod yn bugeilio eu gwartheg ar y gweundiroedd yn y tymhorau cynhesach.

Wrth i chi adael Safle 7, rydych yn cerdded drwy fôr o redyn sy'n wyrdd yn yr haf ac yn troi'n lliw oren llachar yn y gaeaf wrth iddynt wywo a dod yn elfen amlwg yn y tirlun.


Safle 9.

## SAFLE 8 I SAFLE 9 TAI HIRION CANOL OESOL SH 750 767

Ewch ymlaen i fyny'r trac a dros y gamfa sydd ar wal derfyn Gwarchodfa Natur Pensychnant. Ar gyffordd, dilynwch Lwybr y Gogledd tua'r dde a heibio wal. Ewch ymlaen lawr llwybr clir gan ddilyn cyfeirbwyntiau Llwybr y Gogledd (byddwch yn mynd o dan y llinellau pŵer ddwywaith).

Ar gyffordd T gyda chyfeirbwynt, trowch i'r chwith. Ychydig islaw'r llethr ar eich ochr chwith ac yng nghanol y rhedyn mae Safle 9.

Rhwng Safle 8 a Safle 9 ceir nifer o olion tai hirion a chytiau o'r Canol Oesoedd. Mae'r enghraifft orau i'w gweld yn Safle 9. Os ydych yn dymuno chwilio am y lleill, maent wedi'u marcio ar y map.

Dan y rhedyn ceir sylfeini dau dŷ hir o'r Canol Oesoedd sydd mewn cyflwr da. Byddwch yn gweld eu bod wedi'u gosod ochr yn ochr a bod eu talcenni mewn hafn sydd wedi'i thorri yn ochr y bryn.

Roedd y clawdd yn cysgodi'r tai rhag y prif wyntoedd o'r gorllewin a'r curlaw.

## Sut yr adeiladwyd y cytiau

Gwnaed y sylfeini o waliau tair troedfedd o drwch gydag wynebau o gerrig syth a cherrig bach a phridd yn y canol. Roedd waliau'r cytiau wedi'u gwneud o gerrig sych gyda haen arw o blastr. Hyd yn oed pan fyddant yn gyflawn, ni fyddai'r waliau wedi bod yn llawer uwch na hyn yn wreiddiol. Byddai'r to wedi'i wneud o ganghennau a thyweirch ar eu pen. Byddai'r to wedi bod yn isel iawn, ac roedd yr aelwyd ar ganol y cwt

## SAFLE 9 I SAFLE 10 PENSYCHNANTSH 754 766

Ewch yn syth yn i lawr Llwybr y Gogledd, drwy lecyn o laswellt, dan y ceblau trydan nes cyrraedd cyffordd T. Trowch i'r dde gan adael Llwybr y Gogledd a dilyn y llwybr nes cyrraedd camfa. Dyma Safle 10.

Dyma wal derfyn Canolfan Gadwraeth a Gwarchodfa Natur Pensychnant, sydd wedi'i lleoli dros y ffordd i'r maes parcio.

Cartref Abraham Henthorn Stott yn y wlad oedd Pensychnant, sef pensaer melinau cotwm Swydd Gaerhirfryn. Stott a'i feibion a adeiladodd tua un rhan o bump y melinau yn Oldham ar adeg pan oedd un rhan o wyth o waith nyddu cotwm y byd yn cael ei wneud yn Oldham.

Ym 1989, sefydlodd Brian Stott Sefydliad Pensychnant, sy'n elusen gofrestredig, i amddiffyn hanes a hanes naturiol Sychnant ac i feithrin gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd o natur a chadwraeth natur. Bellach, mae'r tŷ yn safle ar gyfer nifer o ddarlithoedd ar fywyd gwyllt, teithiau tywys ac arddangosfeydd.

## SAFLE 10 YN ÔL I'R MAES PARCIO

Ewch dros y gamfa a dilyn y llwybr troed heibio i'r llyn a throi i'r chwith nes cyrraedd y llwybr lle'r oeddech wedi cychwyn, a mynd yn ôl i'r maes parcio.



### Oeddech chi'n gwybod?

Mae Llwybr y Gogledd, sef y llwybr yr ydych yn ymuno ag ef yn awr, yn rhedeg am 60 milltir o Fangor i Brestatyn.

Roedd y llecyn hwn yn cael ei aredig yn ystod y Canol Oesoedd, ac roedd ffermydd yn frith ar y llethrau uchaf. Ar ôl degawdau o droi'r tir, roedd y pridd wedi dirywio a gadawyd caeau'r ucheldir i'w meddiannu gan redyn, eithin, coed llus a grug. Ar ôl cyflwyno defaid ar raddfa fawr ddwy ganrif yn ôl, dechreuodd y planhigion uchod gynyddu yn yr ardal gan fod well gan y defaid fwyta gwair.

Dan y rhedyn sydd o'ch cwmpas heddiw, ceir grynnau a'r rhychau a dorrwyd wrth aredig, ac olion anheddau'r teuluoedd oedd yn gwneud y gwaith.

### Oeddech chi'n gwybod?

Gair Gwyddeleg am gors yw 'gyrach' a dôl neu weirglodd yw un o ystyron eraill 'gwaun'.

### Oeddech chi'n gwybod?

Mae rhedyn yn gallu meddiannu tir yn gyflym, a gallant ymledu 1-3% y flwyddyn. Maent yn tyfu fel arfer ar weundiroedd, porfeydd mynyddig a chynefinoedd eraill lle y ceir pridd asidig.

Er eu bod yn drech na mathau eraill o lystyfiant ac yn atal pori gan anifeiliaid fferm, maent yn gallu cynnal amryw o blanhigion. Planhigion y coetir yw'r rhain, fel arfer, gan fod y rhedyn yn gweithio fel canopi coedwig. Gallech weld clychau'r gog a fioledau ar eich taith.

### Beth am i chi ymweld â Chanolfan Gadwraeth Pensychnant a chanfod…

Tŷ a adeiladwyd yn wreiddiol ym 1690 ond a addaswyd yn ddiweddarach i lunio'r tŷ a welwch chi heddiw, sydd â chymeriad cryf yn dyddio o oes Fictoria. Ystâd 120 erw a reolir fel gwarchodfa natur.

**Pensychnant,**
**Sychnant Pass Road, Conwy**
**Ffôn: 01492-592595**

**www.pensychnant.fsnet.co.uk**



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 100023380. 2009.
© Crown copyright. All rights reserved:
Conwy County Brough Council 100023380. 2009.